



GIG Cymru

Cynllun Rheoli Ariannol Graddedigion 2019

**Oes gennych chi egni,
penderfyniad ac awydd i
wneud gwahaniaeth i gleifion
a phobl Cymru?**



**GIG
CYMRU
NHS
WALES**



Egwyddorion Craidd GIG Cymru

Rydym yn rhoi
cleifion a
defnyddwyr ein
gwasanaethau yn
gyntaf

Rydym yn ceisio
gwella'n gofal

Rydym yn
canolbwyntio ar
lesiant ac atal

Rydym yn
ystyried ac yn
dysgu o'n
profiadau

Rydym yn
gweithio mewn
partneriaeth ac
fel tîm

Rydym yn
gwerthfawrogi
pawb sy'n
gweithio i'r GIG

GIG Cymru yw'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol i Gymru a gyllidir yn gyhoeddus sy'n darparu gofal iechyd i tua 3 miliwn o bobl sy'n byw yn y wlad.

Mae lefel cymhlethdod, pwysau ariannol digynsail, mwy o weithio mewn partneriaethau ar draws sectorau a chanolbwyntio cynyddol ar welliant cynnyrch a diogelwch – yn ogystal â disgwyliadau cynyddol cleifion a newid technolegol cyflym - yn gofyn am newid mewn sgiliau arwain newydd.

Mae angen arweinyddion ar GIG Cymru sydd â'r talent a'r egni i wella profiad ein cleifion, fydd yn dysgu sgiliau ariannol a rheoli ymarferol ac yn tyfu eu cryfderau arwain i ennill enw da fel swyddogion proffesiynol sy'n gweithio'n galed ac sy'n darparu canlyniadau mewn amgylchedd cymhleth sy'n symud yn gyflym.

Rydym yn chwlio am bobl gydag angerdd, egni, ymrwymiad a'r lefel uchaf o hygredd sy'n dymuno ymrwymo i yrfa rheolaeth ariannol, ac sy'n gyfforddus i fyw wrth eu gwerthoedd a gwneud y peth iawn, hyd yn oed pan mae'n anodd.

Bydd ein cynllun hyfforddai Rheolaeth ariannol dros dair blynedd yn eich estyn a'ch datblygu.

Gallwch ddisgwyl profiad dysgu anodd, ymarferol, yn gweithio wrth ochr timau amlddisgyblaethol, gan fagu'r sgiliau ariannol a rheolaethol angenrheidiol i wella iechyd pawb yng Nghymru yn y pen draw.

Trwy hyn, byddwch yn cymhwyso fel cyfrifydd proffesiynol tra'n datblygu'r sgiliau ehangach hefyd sydd eu hangen i yrru gwelliant parhaus mewn gwasanaethau gofal iechyd.

Eich taith ddysgu

Byddwn yn rhoi hyfforddiant, cefnogaeth a chyfarwyddyd i ddatblygu'ch potensial.

Bydd ceiswyr llwyddiannus yn adeiladu ar eu profiad asesu a pharhau i ddatblygu eu cymwysterau arwain, ymddygiadau a gwerthoedd gyda chynlluniau datblygu unigol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaol.

Byddwch yn astudio ar gyfer cymhwyster cyfrifyddiaeth proffesiynol achrededig (ACCA) dros 3 blynedd ac fe'ch disgwylir i gyflawni'r cymhwyster hwn er mwyn graddio o'r Cynllun. Mae ein pecyn seibiant astudio hael yn mynd y tu hwnt i'r safonau gofynnol gan sefydliadau proffesiynol.

Bydd lleoliadau seiliedig ar waith yn cynnig profiad o swyddogaethau ariannol gwahanol mewn un neu fwy o sefydliadau. Byddwch yn dysgu sut i gymhwyso sgiliau ariannol, busnes ac arweinyddol i wir sefyllfaoedd gwaith, gan weithio'n agos gyda meddygon, nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill i sicrhau bod y penderfyniadau gorau yn cael eu gwneud am wasanaethau modern, effeithiol a hyblyg, gan gynnwys gwneud penderfyniadau anodd ynghylch sut y caiff adnoddau eu dosbarthu a'r arian ei wario.

Lleoliadau Gwaith

Sgiliau ariannol a
phrofiad craidd

Datblygiad Arweinyddiaeth

Adeiladu capasiti
rheolaethol a
chymwysterau

Addysg

Cymhwyster
cyfrifyddiaeth
proffesiynol
achrededig
(CIPFA)

Rhwydweithiau Cydradd Rhanbarthol

Gyda myfyrwyr
GIG a chyllid
sector cyhoeddus
eraill

Hyfforddi a Mentora

I gefnogi
datblygiad
personol a thwf

Sgiliau technegol a datblygiad personol

Gweithdai,
cyrisiau, cistiau
offer


Yr hyn y chwiliwn amdano

Chwiliwn am unigolion effeithiol iawn sy'n gweithio'n dda mewn tîm ac mewn partneriaeth ag eraill. Byddwch yn gyfathrebwr cryf gyda'r gallu i gysylltu, dylanwadu ac ysbrydoli hyder. Bydd angen i chi amsugno gwybodaeth yn dda, gan ddadansoddi problemau a chynnig syniadau. Dylech fwynhau cael eich herio a bod â'r egni, hyder a gwytnwch i gyflawni pethau. Bydd yn rhaid i chi hefyd feddu ar y manwl gywirdeb academiaidd i lwyddo mewn arholiadau cyfrifyddiaeth proffesiynol.

Fel rhan o'r cais fe'ch asesir yn erbyn nifer o sgiliau a chymwysterau allweddol, gan gynnwys Fframwaith Cymhwyster Rheolwyr GIG Cymru.

Meini prawf cais

- Gradd 2:2 neu uwch (neu gyfwerth)
- Cymwys i weithio yn y DU



**Fframwaith
Cymwyseddau
Craidd GIG Cymru i
Reolwyr**

Sut i ymgeisio

Bydd gan y broses ymgeisio nifer o rannau:



Rhan 1: Ffurflen Gais Ar-lein

Mae'r broses ymgeisio gyntaf yn cynnwys ffurflen gais GIG ar-lein safonol trwy NHS Jobs, Os y byddwch yn llwyddiannus yn y cyfnod hwn byddwch yn cael eich gwahodd i gwblhau cyfres o gwestiynau cymhwysedd, ac bydd llwyddiant yn y rhan hwn yn golygu y byddwch yn cael eich gwahodd i Rhan 2.

Rhan 2: Aseiad Sgiliau

Gwahoddir ymgeiswyr llwyddiannus o Ran 1 i ymgymryd profion ar-lein. Os ydych yn llwyddiannus yn y rhan hon fe'ch gwahoddir i Ran 3.

Rhan 3: Canolfan Asesu a Chyfweliadau

Bydd canolfan asesu a chyfweliadau gyda phanel o weithwyr ariannol proffesiynol o GIG Cymru yn ein helpu i ddysgu mwy am eich gallu a set sgiliau.

Cynnig: Llongyfarchiadau

Cynigir swydd i ymgeiswyr llwyddiannus yn amodol ar wiriadau cyn cyflogi a gwirio cymwysterau a chymhwyster arall.

Ceisiadau ar gyfer y cynllun 2019 ar agor

Y dyddiad cau yw 31 Hydref 2018

Er mwyn canfod mwy, ewch i'n gwefan

www.financeacademy.wales.nhs.uk/cynllun-hyfforddai-graddedig

Neu e-bostiwch ni ar finance.academy@wales.nhs.uk

Cynllun Rheoli Ariannol Graddedigion GIG Cymru - Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

A fydd angen gradd cyfrifyddiaeth neu fathemateg arnaf?

Nid oes angen gradd mewn cyfrifyddiaeth neu fathemateg arnoch. Tra bo gofyn i chi fod yn rhifog, croesawn geisiadau gan bobl gyda gradd o Archaeoleg i Swoleg neu unrhyw radd arall. Mae ein proses geisio wedi'i chynllunio i adnabod a oes gennych y sgiliau sydd eu hangen arnom.

Ble fyddai i wedi fy lleoli?

Cewch eich lleoli yn un o'r Byrddau Iechyd neu Ymddiriedoliaethau GIG yng Nghymru, er y gallech gael y cyfle i dreulio rhywfaint o amser mewn ardaloedd eraill. Mae Cymru yn wlad fach a hardd, a ble bynnag y cewch eich lleoli byddwch yn agos at ddinasoedd bywiog, trefi marchnad prysur, traethau trawiadol a mynyddoedd. Ar ôl agor ar gyfer ceisiadau, bydd ein gwefan yn rhoi gwybodaeth am y sefydliadau sy'n recriwtio eleni.

Oes angen i mi siarad Cymraeg?

Nid oes angen i chi siarad Cymraeg i geisio, nac i ymgymryd â'ch rôl. Gan ddibynnu ar ble rydych wedi'ch lleoli gallech glywed Cymraeg yn cael ei siarad gan y gymuned leol a phe baech yn dymuno dysgu gallwch gael cefnogaeth gan eich sefydliad cynhaliol.

Beth yw hyd y cynllun?

Mae'r cynllun ychydig dros 3 blynedd, sy'n cydweddu â'r amserlen i gwblhau y cymhwyster cyfrifyddiaeth a chyflwyno'ch portffolio proffesiynol.

Beth yw'r cymhwyster cyfrifyddiaeth?

Byddwch yn astudio ar gyfer ACCA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth). Mae ACCA yn aelod o CCAB Gallwch ddysgu mwy ar wefan ACCA.

Faint fydda i'n ennill?

Mae'r cyflog cychwynnol tua £23,125. Mae hyn yn cynyddu ym mhob blwyddyn o'r cynllun— yn amodol arnoch yn cyflawni eich targedau perfformiad a llwyddo ym mhob cam arholiad, fydd yn eich galluogi i symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf.

Gallwch ddysgu mwy am ein cynllun a manylion sut i geisio, yn ogystal ag atebion manylach i'r cwestiynau hyn a rhai eraill a ofynnir yn aml ar ein gwefan

www.financeacademy.wales.nhs.uk/cynllun-hyfforddai-gradeddig

